# YMWELIADAU SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd W.T. Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff M. Evans, John Griffith, T. Victor Hughes, Vaughan Hughes, Raymond Jones. |
| **WRTH LAW**: | Arweinydd Tîm Gorfodaeth (JR),<br>Arweinydd Tîm Cynllunio (MD). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd R.O. Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Neb |

---

1. **12C463/ENF – Cais ôl-weithredol i gadw stabl/storfa gardd ynghyd ag estyniad i'r cwrtil yn 1 Hampton Way, Llanfaes, Biwmares**

   Aeth yr aelodau i mewn i'r safle ac edrych ar y stabl/storfa gardd a'r tir cyfagos. Eglurodd y Swyddog mai cais yw hwn am ganiatâd ôl-weithredol ar gyfer y stablau/storfa gardd ac i greu estyniad i gwrtil domestig 1 Hampton Way, ac eglurwyd hefyd fod yr ymgeisydd yn rhentu gweddill y tir cyfagos gan y Cyngor.

   Ymatebodd y Swyddog Cynllunio i gwestiynau'r Aelodau ynglŷn â mynediad, a oes yna unrhyw broblemau gydag arogleuon ac a fu unrhyw wrthwynebiadau.

2. **40C58L/RE – Cais llawn i leoli arae ffotofoltaidd 100Kw ar dir ym Maes Carafanau Tyddyn Isaf, Dulas**

   Dangosodd y Swyddog Cynllunio i'r Aelodau y cae lle byddai'r arae solar yn cael ei gosod, ac roedd yr ymgeisydd wedi amlinellu'r safle gan ddefnyddio tâp melyn. Holodd yr Aelodau sut byddai modd cael mynediad i'r safle yn ystod y cyfnod adeiladu. Esboniodd y Swyddog Cynllunio y byddai hyn yn cael ei egluro yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**Y CYNGHORYDD W.T. HUGHES**
**CADEIRYDD**